## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Dogfen ar ôl Ymgynghori
# Cynnig i gynyddu lleoedd yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, Y Santes Fair, Brymbo

**Y Santes Fair, Brymbo**

**Ael-y-Bryn**

**Brymbo, Wrecsam**

**LL11 5DA**

## Cynnwys


**Dogfen ar ôl Ymgynghori Cynnig i gynyddu lleoedd yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, Y Santes Fair, Brymbo** ..... 1

**Cyflwyniad** ..... 4

**Cyhoeddi'r Ymgynghoriad** ..... 4

**Rhestr o'r rhai a ymgynghorwyd â nhw** ..... 4

**Ymgyrchoedd Cyfathrebu** ..... 6

**Sesiynau Ymgynghori** ..... 6

**Adborth ar yr Ymgynghoriad** ..... 7

**Dadansoddiad Meintiol - Ymatebion i'r Arolwg ar-lein gan Oedolion** ..... 8

**Dadansoddiad Ansoddol - Ymatebion i'r Arolwg ar-lein gan Oedolion** ..... 8

**Thema 1 - Angen cynyddu capasiti yn yr ysgol oherwydd datblygiadau tai yn yr ardal** ..... 10

**Thema 2 - Cyfleusterau ysgol bresennol ddim yn addas i'r diben / diffyg gofod tu allan** ..... 10

**Thema 3 - Pryder ynglŷn â'r effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg / iaith Gymraeg** ..... 11

**Thema 4 - Beirniadu'r fethodoleg / proses ymgynghori** ..... 11

**Thema 5 - Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a'u dysgu** ..... 12

**Thema 6 - Traffig / parcio / pryderon diogelwch yn safle presennol yr ysgol** ..... 12

**Thema 7 - Pryder ynglŷn â phwysau ar y gyllideb / angen mwy o gyllid ar gyfer yr ysgol os yw'r capasiti yn cael ei gynyddu** ..... 13

**Thema 8 - Mae yna gapasiti dros ben mewn ysgolion gerllaw** ..... 13

**Thema 9 - Mae'n bwysig i blant allu mynychu ysgol yn ymyl lle maen nhw'n byw** ..... 13

**Thema 10 - Pryder ynglŷn â'r oedi / pa mor hir y mae'r gwaith o adeiladu ysgol newydd yn mynd i'w gymryd** ..... 14

**Dadansoddiad Ansoddol - Arolwg Ar-lein – Ymatebion gan Blant a Phobl Ifanc** ........ 14
**Arolwg Ar-lein – Sylwadau gan Blant a Phobl Ifanc** ........ 14
**Cyngor yr Ysgol** ........ 15
**Adborth gan Grwpiau/E-byst** ........ 30
**Adborth ESTYN** ........ 30
**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** ........ 34
**Cwestiynau Cyffredin** ........ 34
**Crynodeb Cyffredinol o'r Darganfyddiadau** ........ 34
**Casgliad** ........ 36
**Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol** ........ 36

**Cyflwyniad**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cwblhau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar mewn perthynas â'r cynnig i gynyddu lleoedd disgyblion yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, Y Santes Fair ym Mrymbo o 154 i 210 gyda'r posibilrwydd o'i gynyddu ymhellach i 315 os oes angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol ac yn amodol ar ganiatâd cynllunio.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 23 Hydref 2023 a daeth i ben ar 12 Ionawr 2024.

Mae'r ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i God Trefniadaeth Ysgolion 2018 i gael ei ddefnyddio ac i roi arweiniad i gyrff perthnasol (Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu).

Bydd y ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, yn cyfeirio at y canfyddiadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad a bydd yn anelu at ateb a mynd i'r afael â'r cwestiynau sydd wedi'u rhoi i'r Awdurdod Lleol.

**Cyhoeddi'r Ymgynghoriad**

Dechreuodd yr ymgynghoriad gyda'r cyhoeddiad dwyieithog o'r Ddogfen Ymgynghori ar 23 Hydref 2023 ar wefan y Cyngor. Anfonwyd dolenni i'r dogfennau i'r rhestr lawn o'r ymgyngoreion. Mae'r manylion isod yn nodi'r rhestr o dderbynwyr, fel yr arweiniwyd gan God Trefniadaeth yr Ysgol (2018), a gafodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, neu y cafodd eu cyfeirio ati. Yn wreiddiol roedd y cyfnod ymgynghori yn fod i ddod i ben ar 4 Rhagfyr 2023 ond cafodd ei ymestyn i 6 wythnos arall tan 12 Ionawr 2024 er mwyn rhoi ystyriaeth bellach i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn dilyn adborth yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol.

**Rhestr o'r rhai a ymgynghorwyd â nhw**

Gofynnwyd i ystod o unigolion am eu barn am y cynnig gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig

- Awdurdodau Lleol Eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Caer.
- Corff Llywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Cyrff Llywodraethu Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam
- Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion Ffydd ac ysgolion Arbennig.
- Rhieni/Gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Aelodau o staff Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Cyngor Cymuned Brymbo
- Fforwm Cymraeg Mewn Addysg, yn cynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin
- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Senedd: Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llyr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS (Llywodraeth Cymru)
- Aelodau Seneddol Lleol: Sarah Atherton AS, Simon Baynes AS (Llywodraeth y DU)
- Estyn a GwE
- Undebau Llafur yn cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Adran Drafnidiaeth Ysgolion Cyngor Wrecsam
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
- Darparwyr Meithrinfa Annibynnol Leol, Cylchoedd Chwarae, Gofalwyr Plant a Darparwyr Dechrau'n Deg
- Y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Y Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac roedd yr ymgynghoriad ar agor i bawb oedd yn dymuno cymryd rhan.

Wrth gyflawni'r ymgynghoriad hwn rydym wedi defnyddio amryw o ddulliau i gyfathrebu gyda phobl. Roedd yr arolwg yn casglu data ansoddol a meintiol. Gwahoddwyd ymgynghorai i ymateb i'r ymgynghoriad trwy lenwi arolwg ar-lein, llenwi copi caled o'r ffurflen ymgynghori neu drwy anfon e-bost neu ysgrifennu at yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar.  Dylid cyflwyno ymatebion yn electronig neu mewn fformat copi caled.

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael mewn ieithoedd eraill heblaw’r Gymraeg a’r Saesneg ar gais. Mae hefyd ar gael mewn fformat hygyrch fel print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain a CD-sain ar gais.

**Ymgyrchoedd Cyfathrebu**

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo’n eang yn ystod y cyfnod ymgynghori yn defnyddio amryw o ddulliau yn cynnwys:

- Baner ‘Eich Llais’ ar wefan CBSW
- Wedi darparu codau QR i gael mynediad i’r arolwg
- Gwybodaeth wedi’i ddosbarthu trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol CBSW
- Gwybodaeth wedi’i ddosbarthu trwy flog Newyddion Cyngor Wrecsam
- Gwybodaeth wedi’i ddosbarthu trwy Fwletin Cyfranogi CBSW
- Ymgyrch posteri lleol
- Dosbarthu Llyfrynnau Ymgynghori
- Yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth (h.y. Newyddlen i rieni, nosweithiau rhieni, platfformau cyfryngau cymdeithasol)
- Bwletin Ysgol

**Sesiynau Ymgynghori**

Fel rhan o’r broses ymgynghori gyda’r cyhoedd, cynhaliwyd naw o sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb gan Swyddogion Addysg yn Ysgol Y Santes Fair Brymbo ac yn y gymuned. Gwahoddwyd budd-ddeiliaid yn cynnwys rhieni i fynychu’r sesiynau. Darparwyd gwybodaeth i bawb wnaeth fynychu a gofynnwyd iddyn nhw am eu hadborth i’r ymgynghoriad. Eglurwyd bod nifer o ffyrdd y gellir cyfathrebu. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys copi caled o’r ffurflen y gellir ei llenwi a’i dychwelyd at y cyfeiriad a nodwyd a’r dolenni i’r arolwg. Roedd modd cysylltu drwy e-bost neu lythyr hefyd. Cafodd y sesiynau eu mynychu gan lawer o rieni, gofalwyr, staff, llywodraethwyr, Aelodau Lleol, aelodau o’r gymuned, Cyngor Cymuned Brymbo, Ymddiriedolaeth Treftadaeth Brymbo a phlant a phobl ifanc. Dosbarthwyd dros 100 o lyfrynnau.

**Amserlen Sesiynau Galw Heibio**

| **Dyddiad** | **Amser** | **Math o Sesiwn** | **Lleoliad** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth 31 Hydref 2023 | 2:00pm-4:00pm | Sesiwn Galw Heibio (Hanner Tymor) | Canolfan Fenter Brymbo<br>Ystafell Gynadledda |
| Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2023 | 8:45am-9:30am | Sesiwn Galw Heibio (Bore) | Ysgol y Santes Fair, Brymbo<br>Safle'r Ysgol Goedwig (ar yr iard) |
| Dydd Gwener 10 Tachwedd 2023 | 2:30pm-3:30pm | Sesiwn Galw Heibio (Prynhawn) | Ysgol y Santes Fair, Brymbo<br>Safle'r Ysgol Goedwig (ar yr iard) |
| Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2023 | 3:15pm-6:00pm | Sesiwn Galw Heibio (Min nos) | Ysgol y Santes Fair, Brymbo<br>Neuadd Ysgol - Noson Rieni |
| Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023 | 3:15pm-6:00pm | Sesiwn Galw Heibio (Min nos) | Ysgol y Santes Fair, Brymbo<br>Neuadd Ysgol - Noson Rieni |
| Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023 | 9.30am – 11.00am | Sesiwn Cyngor yr Ysgol | Ysgol y Santes Fair, Brymbo<br>Ystafell Gyfarfod |
| Dydd Mawrth 22 Tachwedd 2023 | 3.30pm-4.30pm | Sesiwn Staff | Ysgol y Santes Fair, Brymbo<br>Ystafell Gyfarfod Staff |
| Dydd Iau 23 Tachwedd 2023 | 2:30pm-3:30pm | Sesiwn Galw Heibio (Prynhawn) | Ysgol y Santes Fair, Brymbo<br>Safle'r Ysgol Goedwig (ar yr iard) |
| Dydd Gwener 24 Tachwedd 2023 | 8:45am-9:30am | Sesiwn Galw Heibio (Bore) | Ysgol y Santes Fair, Brymbo<br>Safle'r Ysgol Goedwig (ar yr iard) |
| Dydd Llun 6 Tachwedd 2023 | Hanner dydd<br>7pm | Sesiynau Rhithiol<br>(Bore a Min Nos) | Ar-lein<br>Dolen e-bost ar gael |

**Adborth ar yr Ymgynghoriad**

Yn ystod y cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus fe dderbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr ymatebion canlynol:

| **Fformat yr Ymateb** | **Nifer yr Ymatebion a Dderbyniwyd** |
|---|---|
| Ymatebion Ar-lein (Arolwg Oedolion) | 113 |
| Ymatebion Ar-lein<br>(Arolwg Plant a Phobl Ifanc) | 27 |
| Cyngor Ysgol y Santes Fair, Brymbo | 8 |
| E-byst gan grwpiau | 4 |
| Ffurflenni copi caled | 0 |
| **Cyfanswm yr Ymatebion a Dderbyniwyd** | **152** |

**Dadansoddiad Meintiol - Ymatebion i'r Arolwg ar-lein gan Oedolion**

Wrth ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Y Santes Fair, Brymbo o 154 i 210 gyda'r potensial i gynyddu ymhellach i 315 os bydd angen o fis Medi 2025?' Roedd 71 o'r 113 o ymatebwyr yn yr arolwg oedolion (**63%**) yn cefnogi'r cynnig a 42 allan o'r 113 o'r arolwg oedolion (**37%**) ddim yn cefnogi'r cynnig.

**Dadansoddiad Ansoddol - Ymatebion i'r Arolwg ar-lein gan Oedolion**

Gofynnwyd hefyd i bobl ddarparu sylwadau os oedden nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae adborth o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein a'r e-byst/llythyrau a dderbyniwyd wedi cael eu dadansoddi. Mae'r **17 thema** ganlynol wedi cael eu nodi:

| Thema | Amlder |
|---|---|
| 1. Angen cynyddu capasiti yn yr ysgol oherwydd datblygiadau tai yn yr ardal | 20 |
| 2. Cyfleusterau ysgol bresennol ddim yn addas i'r diben / diffyg gofod tu allan | 14 |
| 3. Pryder ynglŷn â'r effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg / iaith Gymraeg | 10 |
| 4. Beirniadu'r fethodoleg / proses ymgynghori | 7 |
| 5. Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a'u dysgu | 7 |
| 6. Traffig / parcio / pryderon diogelwch yn safle presennol yr ysgol | 6 |
| 7. Pryder ynglŷn â phwysau ar y gyllideb / angen mwy o gyllid ar gyfer yr ysgol os yw'r capasiti yn cael ei gynyddu | 6 |
| 8. Mae yna gapasiti dros ben mewn ysgolion gerllaw | 6 |
| 9. Mae'n bwysig i blant allu mynychu ysgol yn ymyl lle maen nhw'n byw | 6 |
| 10. Pryder ynglŷn â'r oedi / pa mor hir y mae'r gwaith o adeiladu ysgol newydd yn mynd i'w gymryd | 6 |
| 11. Pryder ynglŷn â dileu swyddi ymysg staff / sicrhau fod yna ddigon o staff dysgu | 5 |
| 12. Effaith ar y gymuned / ystyried anghenion y gymuned | 5 |

| | |
|---|---|
| 13. Pryder am yr effaith ar Ysgol Tanyfron | 4 |
| 14. Bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y plant a'u dysgu | 3 |
| 15. 210 / 315 dal ddim yn ddigon mawr / angen ysgol sy'n dal 420 | 3 |
| 16. Pwysigrwydd Ysgolion Eglwys ac Addoli | 2 |
| 17. Pwysig ystyried yr agweddau amgylcheddol / ecolegol wrth adeiladu ysgol newydd | 2 |

Yn ogystal â'r themâu uchod, roedd un sylwad yn nodi y dylid cymryd disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol i ystyriaeth wrth adeiladu ysgol newydd ac un sylwad yn cyfeirio at yr ysgol i gynnig gofal estynedig / meithrinfa ddydd.

Sylwadau o'r deg thema uchaf wedi'u hamlinellu isod:

**Thema 1 - Angen cynyddu capasiti yn yr ysgol oherwydd datblygiadau tai yn yr ardal**
Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*"Bydd ei angen i addysgu'r plant a fydd yn byw yn llawer o'r tai newydd sy'n cael eu hadeiladu."*

*"Mae angen mwy o leoedd ysgol ym Mrymbo oherwydd y datblygiadau tai ac ychydig iawn o le sydd ar gael yn yr ysgol bresennol i ymestyn ar ei safle presennol."*

*"Gyda'r cynnydd mewn tai yn yr ardal, yr unig ffordd ymlaen yw cynyddu capasiti yr ysgol."*

## Thema 2 - Cyfleusterau ysgol bresennol ddim yn addas i'r diben / diffyg gofod tu allan

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*“Mae’r ysgol bresennol yn rhy fach i gwrdd  â gofynion y gymuned, mae’n mynd i fod yn drist gweld yr hen ysgol yn mynd ond yn deall pam fod angen adeiladu ysgol newydd.”*

*“Dwi’n cefnogi’r ysgol newydd gan fod yr hen ysgol yn rhy fach ac nid oes cae ysgol oni bai fod y plant yn croesi ffordd brysur.”*

*“Mae adeilad presennol yr ysgol ar safle lletchwith, mae’r adeilad yn hen ac ychydig iawn o sgôp sydd yna i wella.”*

*“Dwi’n cefnogi hyn gan fod ysgol Brymbo ddim digon mawr ac ychydig iawn o le sydd gan yr ysgol y tu allan.”*

**Thema 3 - Pryder ynglŷn â’r effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg / iaith Gymraeg**

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*“Mae'n bryder byddai cynyddu'r capasiti yn cael effaith ar y niferoedd yn mynychu ysgolion Cymraeg y dalgylch.”*

*“Fe all cynyddu'r capasiti yma gael effaith ar y nifer sydd yn dewis addysg Gymraeg. Yn hytrach na chynyddu'r capasiti yma dylai'r ALl gyfeirio rhieni at ysgolion cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo addysg Gymraeg yn y Sir.”*

*“Does ddim darpariaeth Cymraeg yn yr ardal ac mae hynny’n dangos nad ydych wedi ystyried eich polisïau megis Safonau'r Gymraeg a'ch Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.”*

## Thema 4 - Beirniadu’r fethodoleg / proses ymgynghori

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*“Dydw i ddim yn teimlo eich bod wedi cymryd i ystyriaeth yn eich data y teuluoedd sy’n mynd â’u plant i ysgol y tu allan i Frymbo. Hefyd mae Brymbo yn dal i ddatblygu, ac mae’r broses hon wedi cael ei arafu fel yr ysgol ac mae Brymbo yn mynd yn fwy a dwi ddim yn credu bod y nifer o lefydd yn gywir. Hoffwn weld y capasiti yn hyd yn oed uwch.”*

*“Dydi’r cynnig ddim yn egluro’r uchelgais llai hwn, un ai drwy gyfeirio at newidiadau mewn poblogaeth, rhagolwg cyfraddau geni a gwybodaeth ddemograffig berthnasol arall. Ni allaf weld yn uniongyrchol o’r ddogfen ymgynghori pam fod y lleihad mewn graddfa yn cael ei gynnig.”*

*“Sylw annigonol wedi cael ei roi i effaith y cynnig ar safonau arweinyddiaeth a rheoli a’r cyfleoedd a ddaw yn sgil ehangu’r ysgol.”*

## Thema 5 - Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a’u dysgu

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*“Mae plant Brymbo yn haeddu addysg sy’n addas i’r diben ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain - byddai adeilad newydd yn eu galluogi nhw i ddechrau gwireddu’r uchelgais hwnnw.”*

*“Mae’n ysgol gyda thîm gwych a brwdfrydig o staff yn barod am ysgol newydd ac addas i’r diben i ddarparu’r addysg orau i blant ein pentref.”*

*“Credaf y bydd yr ysgol yn darparu’r holl blant gyda’r cyfle i dderbyn addysg gredadwy.”*

### Thema 6 - Traffig / parcio / pryderon diogelwch yn safle presennol yr ysgol

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*“Mae’r sefyllfa parcio yn erchyll.”*

*“Dim digon o le ac mae’r parcio’n ofnadwy”*

*“Mae gwir angen y cyfleusterau pwrpasol sy’n cael eu haddo gan fod yna fodd datblygu’r ffordd i reoli’r llif traffig hefyd.”*

**Thema 7 - Pryder ynglŷn â phwysau ar y gyllideb / angen mwy o gyllid ar gyfer yr ysgol os yw'r capasiti yn cael ei gynyddu**

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*"Dwi'n cefnogi'r cynnydd ar y sail fod cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r ysgol a hefyd bod y niferoedd ychwanegol yn cael eu cynnwys wrth adeiladu ysgol newydd sydd mawr ei angen."*

*"Dwi'n cefnogi ehangu ar y cyfanswm o blant mewn ysgolion pentrefi, ond mae mwy o blant yn golygu mwy o athrawon a chynorthwywyr, a fyddai'r adran addysg yn gallu ariannu'r athrawon ychwanegol?"*

*"Dwi'n cefnogi'r cynnig ar yr amod bod yr ysgol newydd yn gallu ymdopi â'r niferoedd ychwanegol gyda staff dysgu digonol i sicrhau fod gan staff yr amser i ddysgu pob plentyn."*

## Thema 8 - Mae yna gapasiti dros ben mewn ysgolion gerllaw

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*"Mae gan ysgolion eraill yn yr ardal lawer o lefydd gwag."*

*"Dim angen ehangu capasiti pan fo lleoedd ar gael mewn ysgolion cyfagos."*

*"Mae'r ysgol o dan ei niferoedd ar hyn o bryd ac mae llawer o ysgolion eraill lleol gyda chapasiti ar gyfer unrhyw gynnydd yn y dyfodol."*

## Thema 9 - Mae'n bwysig i blant allu mynychu ysgol yn ymyl lle maen nhw'n byw

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*"I mi, y peth pwysicaf yw gwneud yn siŵr fod gan blant fynediad i ysgolion lleol sydd ddim yn gofyn iddyn nhw orfod teithio siwrneiau hir. Mae plant angen gallu mynd i'r ysgol lle maen nhw'n byw."*

*"Dwi'n edrych ar ddechrau teulu yn y dyfodol agos ac eisiau sicrhau fod yna ddigon o lefydd i fy mhlant gael mynd i ysgol yn ein hardal."*

*“Rydym wirioneddol eisiau i’n plant allu mynd i ysgol yn y gymuned leol ond oherwydd y capasiti presennol a’r cynnydd mewn tai newydd yn cael eu hadeiladu yn yr ardal rydym yn bryderus na fydd hynny’n bosib ac oherwydd hynny yn ystyried symud i fyw. Byddai’r cynnydd mewn capasiti yn wych ac mae mawr ei angen.”*

**Thema 10 - Pryder ynglŷn â’r oedi / pa mor hir y mae’r gwaith o adeiladu ysgol newydd yn mynd i’w gymryd**

Yr hyn y dywedoch chi wrthym ni:

*“Gwnaed addewid y byddai yna ysgol newydd ym Mrymbo pan wnaethon ni symud i’r ystâd newydd bron i 17 mlynedd yn ôl. Dydi hynny byth wedi digwydd."*

*“Symudais yma yn 2010 a chafodd addewid ei wneud i ni y byddai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu a fyddai’n ddigon mawr i gynnal plant o Danyfron a Brymbo. Ac y byddai hynny ar yr hen safle gwaith dur.”*

*“Addawyd i adeiladu ysgol newydd dros 10 mlynedd yn ôl a oedd yn sail ar gyfer gwerthu llawer o dai ar yr ystâd newydd a dydi’r gwaith dal heb gael ei ddechrau. Dylai’r cyngor wireddu eu haddewid.”*

**Dadansoddiad Ansoddol - Arolwg Ar-lein – Ymatebion gan Blant a Phobl Ifanc**

Wrth ymateb i’r cwestiwn ‘Sut ydych chi’n teimlo am ein syniad i wneud Ysgol Y Santes Fair ym Mrymbo yn fwy ar gyfer mwy o ddisgyblion? 17 allan o 27 (**65%**) o blant a phobl ifanc yn cefnogi’r cynnig a 4 allan o 27 (**15%**) o blant a phobl ifanc ddim yn cefnogi’r cynnig. 5 allan o 27 (**19%**) o blant a phobl ifanc yn dweud na wydden nhw sut i deimlo am y cynnig.

**Arolwg Ar-lein – Sylwadau gan Blant a Phobl Ifanc**

- Nyrs os yw pobl wedi brifo. Parc os yw pobl eisiau chwarae. Os ydych yn drist, ewch i’r den zen i ymlacio.
- Syniadau da
- Pa mor fawr fydd yr ysgol newydd?

- Rydw i’n symud i’r ysgol newydd
- Rwy'n credu y byddai'n beth da
- Dwi eisiau aros yn yr ysgol hon
- Byddaf yn gallu treulio amser gyda fy mrawd bach cyn i fi fynd i ysgol uwchradd
- Dim ots gennyf ond dwi’n gwybod y byddai’n braf!!
- Bydd cynyddu capasiti ond o fudd i’r ardal rŵan gan fod tai newydd yn cael eu hadeiladu.  Bydd ysgol newydd yn atynnu mwy o ddisgyblion felly bydd angen cynyddu capasiti.
- mae’n grêt
- mae’n dda
- pêl-droed
- mwy o spheros/technoleg a chlai mowldio
- Beth ddigwyddodd i’r cynnig am ysgol fwy yn cael ei hadeiladu ar safle hen waith dur ac i uno ag Ysgol Tanyfron? Tydi’r droedfedd sgwâr yn ysgol bresennol Brymbo ddim yn ddigon mawr ar gyfer y cyfanswm o blant.
- Pa effaith y bydd hynny’n ei gael ar ddisgyblion presennol yr ysgol. Ydi o’n golygu cynnydd mewn cyllid a rhagor o staff i sicrhau fod disgyblion yn cael yr un cyfleoedd ag sydd ar gael ar hyn o bryd.
- ydi, dwi’n meddwl y dylem gael ardal chwaraeon osgoi’r bêl ac ardal addysg gorfforol mwy ac iard mwy a chae pêl-droed llai. dial ar y pêl-droedwyr sy’n gas
- Ie!

**Cyngor yr Ysgol**

Cyhoeddwyd fersiwn ddwyieithog i’r plant o’r Ddogfen Ymgynghori ar wefan Cyngor Wrecsam ochr yn ochr â’r Ddogfen Ymgynghori llawn. Roedd arolwg dwyieithog ar-lein ar gael i’r plant hefyd.

Yn ystod yr ymgynghoriad, bu i Swyddogion Yr Awdurdod Lleol gwrdd â Chyngor Yr Ysgol i drafod y cynigion.

| Dyddiad | Math o Sesiwn | Lleoliad | Nifer y Rhai a Ymgynghorwyd â nhw: |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 Tachwedd 2023 | Cyngor yr Ysgol | Ysgol y Santes Fair, Brymbo | 8 plentyn |

Yn ystod cyfarfod Cyngor yr Ysgol, gofynnwyd i'r plant os oeddent wedi gweld copi o'r ddogfen ymgynghori plant, ac eglurodd y Swyddogion am beth oedd yr ymgynghoriad yn sôn amdano. Anogwyd y plant i ofyn cwestiynau ac i rannu unrhyw syniadau oedd ganddynt.

**Adborth gan Gyngor yr Ysgol y Santes Fair, Brymbo - 15 Tachwedd 2023**

Wrth ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n deall ein syniad i wneud Ysgol Y Santes Fair ym Mrymbo yn fwy ar gyfer mwy o ddisgyblion? 5 allan o 8 disgybl (**63%**) ar Gyngor yr Ysgol yn dweud eu bod nhw'n deall a 3 allan o 8 disgybl (**37%**) ar Gyngor yr Ysgol yn dweud eu bod nhw ddim yn siŵr os oedden nhw'n deall.

Wrth ymateb i'r cwestiwn 'Sut ydych chi'n teimlo am ein syniad i wneud Ysgol Y Santes Fair ym Mrymbo yn fwy ar gyfer mwy o ddisgyblion? 7 allan o 8 disgybl (**88%**) ar Gyngor yr Ysgol yn dweud eu bod nhw'n hoffi'r syniad a 1 allan o 8 disgybl (**12%**) ar Gyngor yr Ysgol yn dweud eu bod nhw ddim yn siŵr os oedden nhw'n hoffi'r syniad.

**Sylwadau gan Gyngor yr Ysgol**

Beth fydd yn digwydd i'r ysgol hon?
A fydd yna oleuadau traffig?
Beth fyddai'n digwydd i'r ysgol hon? A fyddai'r un mor gyfeillgar? A fydd yna oleuadau traffig? Ydi o'n mynd i fod yn ddiogel?
Mi fyddai'n blwyddyn 8. Bydd fy mrawd bach *enw* yn yr ysgol
Mi fyddai dal yn yr ysgol hon - mi fyddai wrth fy modd gyda'r cae pêl-droed
Dwi'n teimlo'n gyffrous am y bobl newydd a fydd yn dod i'r ysgol newydd ac yn meddwl am fy mrawd bach
Ydi o'n mynd i fod yn ddiogel?
Dwi'n teimlo'n hapus i gael gweld pobl newydd *enw*
Pryderus am beth fydd yn digwydd i'r adeilad hwn - Dwi'n hoffi'r lle ac eisiau i fy chwiorydd a brodyr iau fynd i'r un ysgol
Angen gwell lle i chwarae tu allan
Hapus i gael mwy o ffrindiau i ddysgu mwy amdanyn nhw a'u bywyd
Credu y dylech allu cael mynd i'r ysgol wrth eich cartref nid yn y dref

Yn ogystal â gofyn a oedd pobl yn cefnogi neu ddim yn cefnogi'r cynnig, dyma ni hefyd yn gofyn i bobl os oedden nhw'n meddwl bod y cynnig yn deg neu beidio.  Ni ddewisodd yr holl ymatebwyr i ddewis ateb yr adran 'i drin pawb yn deg' yn yr arolwg.

**Trin Pawb yn Deg - 69** o ymatebwyr wedi dewis i ateb y cwestiwn hwn.

| A ydych yn meddwl y gall y cynnig hwn fod o anfantais neu wneud pethau'n annheg i unrhyw grwpiau o bobl neu unigolion? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---:|---:|
| Ydi | 24 | 34.78% |
| Na | 34 | 49.28% |
| Ddim yn siŵr / Ddim yn gwybod | 11 | 15.94% |
| **Cyfanswm** | **69** | **100%** |

**29** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn testun rhydd 'Os ydych yn meddwl y gall y cynnig hwn fod o anfantais neu wneud pethau'n annheg i unrhyw grwpiau o bobl neu unigolion, pa grwpiau neu unigolion ydych chi'n credu a all fod o dan anfantais a pham?' Mae'r grwpiau canlynol o bobl wedi'u hadnabod yn y **29** o ymatebion hyn:

- Ysgolion cyfrwng Cymraeg - oherwydd bod y cynnig yn canolbwyntio ar ysgol cyfrwng Saesneg.
- Ysgol Tanyfron / ysgolion cyfrwng Saesneg eraill yn yr ardal - oherwydd uno posib.
- Y gymuned - oherwydd cynnydd mewn traffig, problemau gyda pharcio, mynediad i gludiant.
- Disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol - oherwydd anabledd a symudedd.
- Staff ysgol - oherwydd y posibilrwydd o ddileu swyddi / pwysau cyllideb.

**27** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn testun rhydd ‘A ydych yn meddwl fod unrhyw botensial yn y ffordd a gyflwynwn y cynnig hwn i wneud pethau yn decach i’r grwpiau neu unigolion rydych wedi eu nodi?’ Dyma rai enghreifftiau o’r awgrymiadau a gyflwynwyd yn y 27 ymateb hyn:

- Darparu cludiant a chyfleusterau parcio gwell.
- Hyrwyddo’r Gymraeg ac addysg Gymraeg yn ardal Brymbo.
- Cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol newydd.
- Cynyddu cymhwysedd yn yr ysgol i 420 a chynnwys cyfleusterau gofal plant estynedig.

**Y Gymraeg**

Gofynnwyd hefyd i bobl rannu eu syniadau ar gyfer hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg a sicrhau nad yw’n cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg wrth ddarparu’r cynnig hwn. Ni ddewisodd yr holl ymatebwyr i ateb yr adran iaith Gymraeg yn yr arolwg. **31** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn testun rhydd ‘Oes gennych unrhyw syniadau ar sut y gallwn hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg a sicrhau nad yw’n cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg wrth ddarparu’r cynnig hwn? Dyma rai enghreifftiau o’r awgrymiadau a gyflwynwyd yn y **31** ymateb hyn:

- Annog rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg / adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ym Mrymbo.
- Angen datblygu darpariaeth iaith Gymraeg cyn cynnig mwy o lefydd cyfrwng Saesneg.
- Addysg Gymraeg yn gadarn yn yr ysgol yn barod ac mewn ysgolion lleol eraill.
- Defnyddio’r llefydd gwag sydd yn yr ysgolion Cymraeg.
- Sicrhau arwyddion dwyieithog gyda’r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.

**Carbon**

Dyma ni’n gofyn i bobl os oedden nhw’n meddwl y byddai’r cynnig yn cael effaith hir dymor cadarnhaol neu negyddol ar leihau carbon yn ein hamgylchedd. Ni ddewisodd yr holl ymatebwyr i ateb yr adran Garbon yn yr arolwg. **69** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn.

| Ydych chi'n credu y bydd y cais hwn yn cael effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---:|---:|
| Effaith cadarnhaol hirdymor | 24 | 38.10% |
| Effaith negyddol hirdymor | 11 | 17.46% |
| Effeithiau cadarnhaol a negyddol hirdymor | 8 | 12.70% |
| Dim effaith | 6 | 9.52% |
| Ddim yn gwybod / Ddim yn siŵr | 14 | 22.22% |
| **Cyfanswm** | **63** | **100%** |

**16** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn testun rhydd 'Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol hirdymor, disgrifiwch y rhain isod, ynghyd ag unrhyw syniadau i'w lleihau.' Dyma rai enghreifftiau o'r awgrymiadau a gyflwynwyd yn yr **16** ymateb hyn:

- Lleihau'r effaith ar ôl-troed carbon trwy annog pobl i gerdded a beicio i'r ysgol.
- Ystyried effeithiau amgylcheddol yr ysgol a mentrau arbed ynni.
- Defnyddio cymhwysedd presennol mewn ysgolion lleol sydd eisoes yn gwresogi a goleuo eu heiddo.
- Pryder ynglŷn â'r cyfanswm o deuluoedd sy'n cael mynediad i ofal plant ac ysgolion y tu allan i'r ardal leol.

**Data Monitro Cydraddoldeb - 'Amdanoch Chi'**

Gofynnwyd nifer o gwestiynau monitro cydraddoldeb yn yr arolwg o dan y pennawd 'Amdanoch Chi'. Ni ddewisodd yr holl ymatebwyr i ateb yr adran 'amdanoch chi' yn yr arolwg. Y nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

- Oedran
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd

- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu o ran cenedl, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd a chred - gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a Phartneriaeth Sifil

Yn ogystal, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, wrth wneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Oed - 47** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Faint yw eich oed? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Dan 11 | 0 | 0% |
| 11-15 oed | 0 | 0% |
| 16-24 oed | 3 | 6.38% |
| 25-34 oed | 6 | 12.77% |
| 35-44 oed | 16 | 34.04% |
| 45-54 oed | 8 | 17.02% |
| 55-64 oed | 8 | 17.02% |
| 65-74 oed | 5 | 10.64% |
| 75 oed neu’n hŷn | 0 | 0% |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 | 2.13% |
| **Cyfanswm** | **47** | **100%** |

**Rhyw** - **48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich rhywedd? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Gwryw | 13 | 27.08% |
| Benyw | 35 | 72.92% |
| Arall | 0 | 0% |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Ailbennu Rhyw** - **48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid ers eich genedigaeth? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Ydi | 2 | 4.17% |
| Na | 46 | 95.83% |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Hil - Hunaniaeth Genedlaethol - 48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Sut fyddech chi’n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Cymraeg | 30 | 62.50% |
| Saesneg | 4 | 8.33% |
| Albanaidd | 1 | 2.08% |

| | | |
|---|---|---|
| Gwyddelig (Gogledd Iwerddon) | 0 | 0% |
| Prydeinig | 13 | 27.08% |
| Arall | 0 | 0% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Hil - Ethnigrwydd** - **49** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich grŵp ethnig? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Gwyn - Cymreig, Saesnig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig | 49 | 100% |
| Gwyddelig | 0 | 0% |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | 0% |
| Roma | 0 | 0% |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 0 | 0% |
| Asiaidd - Indiaidd | 0 | 0% |
| Asiaidd - Pacistanaidd | 0 | 0% |
| Asiaidd-Bangladeshaidd | 0 | 0% |
| Asiaidd - Tsieineaidd | 0 | 0% |
| Asiaidd – unrhyw gefndir arall | 0 | 0% |
| Du – Caribïaidd | 0 | 0% |
| Du – Affricanaidd | 0 | 0% |
| Cefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall | 0 | 0% |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0% |
| Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 0 | 0% |
| Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Unrhyw gefndir grŵp ethnig Cymysg/Lluosog arall…………….. | 0 | 0% |
| Arabaidd | 0 | 0% |
| Unrhyw ethnigrwydd arall | 0 | 0% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **49** | **100%** |

**Anabledd** - **48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| A yw eich gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Ydyn - wedi'u cyfyngu'n arw | 1 | 2.08% |
| Ydyn - wedi'u cyfyngu ychydig | 5 | 10.42% |
| Na | 42 | 87.50% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth - 48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi'n feichiog neu wedi bod yn feichiog neu wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Ydw | 2 | 4.17% |
| Na | 45 | 93.75% |

| | | |
|---|---|---|
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 | 2.08% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Cyfeiriadedd Rhywiol - 48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Pa un o’r canlynol sydd yn eich disgrifio chi orau? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Heterorywiol neu strêt | 46 | 95.83% |
| Dyn Hoyw | 0 | 0% |
| Dynes Hoyw/ Lesbiad | 0 | 0% |
| Deurywiol | 1 | 2.08% |
| Arall | 1 | 2.08% |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred) - 48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich crefydd neu eich cred? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Dim crefydd | 18 | 37.50% |
| Cristion (pob enwad) | 27 | 56.25% |
| Mwslim | 0 | 0% |
| Bwdhydd | 0 | 0% |
| Hindŵ | 0 | 0% |
| Iddew | 0 | 0% |
| Sikh | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Anffyddiaeth | 1 | 2.08% |
| Arall | 2 | 4.17% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Priodas a Phartneriaeth Sifil - 48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| A ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Ydw | 31 | 64.58% |
| Na | 16 | 33.33% |
| Rwy'n unigolyn ifanc dan 18 oed | 0 | 0% |
| | | |
| Rydw i'n ŵr gweddw/gwraig weddw | 0 | 0% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1 | 2.08% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol - Budd-daliadau Prawf Modd - 48** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi neu eich aelwyd yn cael budd-daliadau prawf modd (er enghraifft: Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith, Credydau Treth, Lwfans Gofalwyr, Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor)? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Ydi | 8 | 16.67% |
| Na | 38 | 79.17% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 2 | 4.17% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

**Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol - Budd-daliadau Anabledd - 47** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi neu unrhyw un sy’n byw yn eich aelwyd yn cael budd-daliadau anabledd (Er enghraifft: Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Bersonol, Taliad Annibynnol y Lluoedd Arfog, Lwfans Gweini Cyson, Atodiad Symudedd Pensiwn y Rhyfel)? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Ydi | 6 | 12.77% |
| Na | 39 | 82.98% |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 2 | 4.26% |
| **Cyfanswm** | **47** | **100%** |

**Ward Etholiadol - 47** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Ward Etholiadol | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Gogledd Acrefair | 0 | 0% |
| Acton a Maesydre | 3 | 6.38% |
| Bangor Is-coed | 0 | 0% |
| Parc Borras | 1 | 2.13% |
| Bronington a Hanmer | 0 | 0% |
| Brymbo | 23 | 48.94% |
| Bryn Cefn | 1 | 2.13% |
| Brynffynnon | 0 | 0% |
| Cartrefle | 0 | 0% |
| Dwyrain Cefn | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Gorllewin Cefn | 0 | 0% |
| Dyffryn Ceiriog | 0 | 0% |
| Gogledd y Waun | 0 | 0% |
| De’r Waun | 0 | 0% |
| Coedpoeth | 4 | 8.51% |
| Erddig | 0 | 0% |
| Esclus | 1 | 2.13% |
| Garden Village | 0 | 0% |
| Dwyrain/Gorllewin Gresffordd | 0 | 0% |
| Grosvenor | 0 | 0% |
| Gwenfro | 0 | 0% |
| Dwyrain Gwersyllt | 1 | 2.13% |
| Gogledd Gwersyllt | 0 | 0% |
| De Gwersyllt | 0 | 0% |
| Gorllewin Gwersyllt | 0 | 0% |
| Hermitage | 0 | 0% |
| Holt | 0 | 0% |
| Little Acton | 0 | 0% |
| Llangollen Wledig | 0 | 0% |
| Llai | 1 | 2.13% |
| Marchwiail | 0 | 0% |
| Marford a Hoseley | 0 | 0% |
| Y Mwynglawdd | 0 | 0% |
| New Broughton | 2 | 4.26% |
| Offa | 0 | 0% |
| Owrtyn a De Maelor | 0 | 0% |
| Pant a Johnstown | 0 | 0% |
| Pen-y-cae | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Pen-y-cae a De Rhiwabon | 0 | 0% |
| Ponciau | 0 | 0% |
| Queensway | 0 | 0% |
| Rhos | 2 | 4.26% |
| Rhosnesni | 0 | 0% |
| Yr Orsedd | 0 | 0% |
| Rhiwabon | 1 | 2.13% |
| Smithfield | 0 | 0% |
| Stansty | 0 | 0% |
| Whitegate | 0 | 0% |
| Wynnstay | 0 | 0% |
| Nid wyf yn byw yn Wrecsam | 4 | 8.51% |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 3 | 6.38% |
| **Cyfanswm** | **47** | **100%** |

**Iaith - 49** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Pa un yw eich iaith ddewisol? | Nifer yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Saesneg | 38 | 77.55% |
| Cymraeg | 10 | 20.41% |
| Arall | 0 | 0% |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 | 2.04% |
| **Cyfanswm** | **49** | **100%** |

**Cwestiynau Monitro Ansawdd yr Arolwg**

Ar ddiwedd ein harolwg, gwnaethom ni ofyn tri chwestiwn byr am brofiad pobl o lenwi ein harolwg.  Ni ddewisodd pawb i ateb y cwestiynau monitro ansawdd yr arolwg.

Wrth ymateb i'r cwestiwn 'Pa mor hawdd oedd yr arolwg hwn i'w lenwi?' **59** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Pa mor hawdd oedd yr arolwg hwn i'w lenwi? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---:|---:|
| Hawdd iawn | 32 | 54.24% |
| Eithaf hawdd | 25 | 42.37% |
| Eithaf anodd | 0 | 0% |
| Anodd iawn | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod / Ddim yn siŵr | 2 | 3.39% |
| **Cyfanswm** | **59** | **100%** |

Wrth ymateb i'r cwestiwn 'Yn eich barn chi, a wnaethom ofyn y cwestiynau cywir am bwnc yr arolwg hwn?' **60** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Yn eich barn chi, a wnaethom ofyn y cwestiynau cywir am bwnc yr arolwg hwn? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---:|---:|
| Do | 44 | 73.33% |
| Naddo | 6 | 10% |
| Ddim yn siŵr | 10 | 16.67% |
| **Cyfanswm** | **60** | **100%** |

Wrth ymateb i'r cwestiwn 'Pan oeddem yn gofyn cwestiwn, a oedd yr hyn oeddem yn ei ofyn yn eglur?' **57** o ymatebwyr wedi dewis ateb y cwestiwn hwn.

| Pan oeddem yn gofyn cwestiwn, a oedd yr hyn oeddem yn ei ofyn yn eglur? | Nifer o Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) | Canran yr Ymatebwyr (wnaeth ateb y cwestiwn) |
|---|---|---|
| Oedd | 53 | 92.98% |
| Nag oedd | 2 | 3.51% |
| Ddim yn siŵr | 2 | 3.51% |
| **Cyfanswm** | **57** | **100%** |

**Adborth gan Grwpiau/E-byst**

Derbyniwyd adborth gan Grwpiau ar e-byst/llythyrau sydd i'w gweld yn y Llyfrgell Aelodau. Adborth a themâu o e-byst / llythyrau wedi'u cynnwys yn y darganfyddiadau.

**Adborth ESTYN**

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo o 154 i 210 gyda'r potensial i gynyddu ymhellach i 315 os bydd angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol.

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru**

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn.
Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Estyn weithredu'n unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly fel corff sy'n cael ei ymgynghori, bydd Estyn yn darparu barn yn unig ar deilyngdod cyffredinol cynigion trefniadaeth yr ysgol.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgiadol y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd, a gwybodaeth ychwanegol arall megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Regional Consortia sydd yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgol o fewn y cynnig.

**Crynodeb/Casgliad**

Mae'r cynigydd wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol sy'n egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig. Mae ystyriaeth wedi'i roi i'r dewisiadau fel a ganlyn:-

- addasu/ehangu'r adeilad presennol a pharhau i addysgu disgyblion ar y safle
- adleoli i safle newydd a chynyddu capasiti'r ysgol o 154 i 210 gyda'r posibilrwydd o gynyddu'r capasiti ymhellach i 315 os oes angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol.

Mae'r cynigydd o'r farn bod yr adeilad ar y safle presennol yn anaddas ar gyfer estyniad ac, o ganlyniad, ond yn cynnig yr ail ddewis. Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal neu wella safonau presennol o ran addysg, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r rhesymeg ar gyfer y cynnig hwn yn gadarn ac mae sylw digonol wedi cael ei roi i'r ystyriaethau. Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar y ffeithiau ac ystyriaethau dilys ac mae'r cynigydd wedi darparu amserlen glir ar gyfer y gweithdrefnau statudol ac i weithredu'r cynnig. Ar y cyfan mae'r cynigydd yn nodi manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig yn glir o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Maen nhw wedi rhoi ystyriaeth fanwl i fanteision ac anfanteision yr opsiynau eraill ac mae rhesymau clir a dilys wedi cael eu cyflwyno ar gyfer diystyru'r opsiynau hyn. Dydyn nhw ddim yn credu bod yr adeilad presennol yn darparu lle addas i ddarparu'r cwricwlwm newydd. Mae diffyg lle a'r lleoliad presennol yn heriol o ran darparu agweddau pwysig o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio cae chwarae sydd 1 cilomedr i ffwrdd o'r adeilad gyda'r disgyblion yn gorfod croesi ffordd brysur i fynd yno.
Bydd y cynnig yn sicrhau gwell cyfleoedd i ddarparu Cwricwlwm i Gymru yn llawn ar draws pob ystod oedran. Disgwylir i'r adeilad newydd i gael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion drwy ddarparu gofod modern ac addas i'r diben gan gynnwys nodweddion arloesol sy'n cyfrannu at weithredu'n ddi-garbon.
Mae'r cynnig wedi rhoi ystyriaeth amlwg i unrhyw effaith y bydd y newidiadau yn ei gael ar drefniadau teithio dysgwyr. Bydd ychwanegu at gapasiti Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru, Y Santes Fair ar safle newydd yn golygu cyfle i sicrhau lle mewn ysgol ffydd i fwy o blant yn agosach i'w cartref. Yn ei dro, byddai hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gludiant. Mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion a rhieni yn gorfod teithio ychydig ymhellach i gael mynediad i safle ysgol newydd os ydyn nhw'n byw yn agos iawn at y safle presennol. Bydd unrhyw draffig ychwanegol oherwydd y cynnydd mewn capasiti yn cael ei liniaru drwy ddarparu gwell cyfleusterau parcio ar y safle newydd. Byddai'n gysylltiedig i isadeiledd ffordd newydd a mapio llwybrau cerdded newydd i annog

teithio cynaliadwy. Disgwylir lleihad mewn traffig o amgylch y safle presennol ar ôl adleoli'r ysgol. Ni ddisgwylir costau cludiant ychwanegol i'r cyngor gan na fydd angen cludo disgyblion i'r ysgol ffydd agosaf arall.

Mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith yr ysgol newydd ar gapasiti ysgol a'r effaith ar lefydd dros ben. Gyda chapasiti ychwanegol disgwylir cynnydd graddol yn nifer y disgyblion yn yr ysgol o Fedi 2025 ymlaen. Disgwylir i'r pwysau ar gapasiti neu ordanysgrifio mewn ysgolion lleol leihau. Dydi'r cynnig ddim yn rhoi ystyriaeth sylweddol ar sut y bydd y risgiau posib i ysgolion eraill yn yr ardal a fydd yn cael eu heffeithio yn cael eu rheoli. Disgwylir cynnydd mewn darpariaeth gofal plant ffydd (meithrinfa), yn unol â'r niferoedd derbyn newydd.

Mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth addas i'r costau ariannol ar gyfer yr ysgol. Amcangyfrifir y gyllideb refeniw dros amser, gan dalu sylw i'r ffaith fod disgyblion sydd eisoes mewn ysgolion cynradd eraill yn sir Wrecsam ddim yn atynnu costau ychwanegol gan fod yr arian eisoes yn y system. Dydi'r cynnig ddim yn ystyried yr effaith ar gyllidebau ysgolion eraill yn yr ardal, gan gadw mewn cof fod disgwyl i niferoedd disgyblion, sef pump allan o chwech, ostwng dros amser.
Hefyd, dim ystyriaeth yn cael ei roi i sut y bydd yr ysgol newydd yn wynebu heriau o ymdopi gyda chynnydd mewn niferoedd yn flynyddol ym mis Medi (dros gyfnod o amser), gyda'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol wedi cael ei gosod yn barod yn seiliedig ar y niferoedd ym mis Ionawr o'r flwyddyn honno. Mae'r cynigydd yn disgwyl arbedion effeithiolrwydd ynni sylweddol o symud i'r ysgol newydd o ganlyniad i leihad mewn defnyddio ynni, ond dydyn nhw ddim yn ymhelaethu ymhellach.

Dydi'r cynnig ddim yn cyfeirio at sut y mae corff llywodraethu'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn gallu ysgwyddo'r cyfrifoldebau ariannol ar gyfer gwaith atgyweirio a chyfalaf. Nid oes eglurder ynglŷn â sut y byddai'r trefniadau arfaethedig ar gyfer deiliadaeth tir yn darparu sicrwydd sylweddol bod yr ysgol yn cael cadw'r safle.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig. Gan mai ad-drefnu darpariaeth cyfrwng Saesneg yw sail y cynnig, nid oes disgwyl y bydd effaith sylweddol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig.

**Agweddau addysgiadol o'r cynnig**

Mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth i effaith debygol y cynnig ar ansawdd canlyniadau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Maen nhw o'r farn bod y cynnig yn mynd ati i fynd i'r afael â heriau o fewn yr ardal sydd â'r potensial o effeithio ar gynaliadwyedd darpariaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol.

Disgwylir fod y cynnig hwn yn adeiladu ar y safonau presennol, gyda’r bwriad o gryfhau a gwella darpariaeth addysgol.  Bydd y gofod newydd a mwy o ran maint yn hwyluso rhagor o ymrwymiad rhwng disgyblion, mwynhad yn eu dysgu ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles.

Mae’r cynigydd yn nodi y bydd mewnbwn gan yr ysgol a’r esgobaeth yn nyluniad y safle newydd yn helpu gallu’r ysgol i ddarparu cwricwlwm modern ar draws yr ystod oedran.  Y weledigaeth yw darparu ysgol sydd â chysylltiad clir â’r byd naturiol, er enghraifft drwy ddarparu cynefinoedd priodol ar y safle a fydd yn galluogi disgyblion i ddysgu’n uniongyrchol am agweddau fel newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

Mae ystyriaeth briodol yn cael ei roi i’r effaith ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Ddim yn rhagweld effeithiau negyddol yn yr hirdymor gan y bydd disgyblion sy’n mynychu’r uned darpariaeth adnoddau a’r ddarpariaeth ysgol bresennol yn symud i’r adeilad newydd.  Mae disgwyl i’r gwell adnoddau hwyluso’r cynnydd o ran safon yr addysgu a’r dysgu.  Dydi’r cynnig heb amlinellu unrhyw drefniadau pontio ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae’r cynnig yn annhebygol o ehangu neu gael effaith negyddol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan fod yr ysgol dan sylw yn ddarpariaeth ffydd cyfrwng Saesneg. Ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i’r effaith ar grwpiau o ddisgyblion diamddiffyn a sicrhau cydraddoldeb.  Dim pryderon bod y cynllun yn cael unrhyw effaith o ran yr agweddau hyn.
Mae’n cael ei gydnabod y bydd yn hanfodol i benodi staff ychwanegol yn yr ysgol gan fod y cynnydd mewn niferoedd derbyn yn nosbarthiadau meithrin a derbyn yn ffiltro trwy’r ysgol dros amser.  Mae’r cynnydd graddol yn y niferoedd derbyn yn darparu digon o amser i’r ysgol adolygu sut y mae’n darparu strwythur ei ddosbarthiadau ac i recriwtio staff yn ôl yr angen.

Ni ddisgwylir iddo gael effaith andwyol o ran lles ac agwedd disgyblion i ddysgu.  Mae’r cyngor wedi sicrhau y bydd cyn lleied o aflonyddwch ag sy’n bosib i’r dysgwyr. Ni fydd angen mesurau dros dro, er enghraifft, adleoli dosbarthiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan y byddai’r ysgol newydd yn cael ei ddatblygu ar safle newydd.

Mae sylw annigonol wedi cael ei roi i effaith y cynnig ar safonau arweinyddiaeth a rheoli a’r cyfleoedd a ddaw yn sgil ehangu’r ysgol. Mae adroddiad Estyn o Hydref 2018 yn dangos bod yr ysgol wedi derbyn pump o raddau ‘Digonol ac angen gwella’ yn erbyn y pum maes arolwg o’r Fframwaith Arolwg.  Yn dilyn yr ymweliad hwn, dyfarnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â’r argymhellion a roddwyd ac felly tynnwyd o’r rhestr o ysgolion oedd angen eu monitro gan Estyn. Mae’r cynnig yn cynnwys dolenni i adroddiadau arolwg ysgolion eraill yn yr ardal sy’n cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Yn dilyn adborth trwy ymgynghoriad cyhoeddus a thrafodaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg, adolygwyd elfennau o Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a chafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn am 6 wythnos arall. Mae swyddogion ar draws y Cyngor wedi mynychu seminar wedi'i chynnal gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag ymgynghoriadau ac asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg a chynhaliwyd cyfarfod corfforaethol gyda chydweithwyr o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Gweithiodd nifer o Swyddogion ar y cyd i adolygu ac ystyried effeithiau'r cynnig ar addysg Gymraeg a'r iaith, gan gynnwys Swyddogion o Dîm Mynediad a Llefydd Ysgol, Swyddog Strategol Cymraeg y Cyngor, Gwasanaeth Trochi Cymraeg Wrecsam ac Uwch Swyddogion Addysg gyda'r arbenigedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg diwygiedig yn cynnwys nifer o effeithiau negyddol a'r camau lliniaru sydd yn eu lle a fydd gyda'r nod o leihau'r effeithiau ar nifer o ffactorau all effeithio'r Gymraeg a diwylliant Cymreig. Rydym wedi nodi ein bod yn cydnabod fod yna fwy o waith angen cael ei wneud fel rhan o'r hwb i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, i fynd i'r afael â'r diffygion yn ein darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg ac i wella sgiliau staff. Rydym yn hyderus bod ein gwaith ar yr amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn lleihau a lliniaru unrhyw effeithiau posib o'r cynnig, ac y byddwn yn parhau i hyrwyddo a chodi proffil unrhyw addysg cyfrwng Cymraeg.
Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gael i'w weld / lawrlwytho o'r tudalen we ymgynghoriad y Santes Fair Brymbo. Mae copïau caled ar gael ar gais. Rydym yn parhau i weithio at ddatblygu asesiadau o effaith mwy cadarn a'r nod yw cynnwys arbenigwyr allweddol ar gam cynharach i gasglu eu barn, syniadau a safbwyntiau mewn perthynas ag effeithiau posib y cynigion sy'n berthnasol i drefniadaeth yr ysgol.

**Cwestiynau Cyffredin**

Casglwyd cwestiynau cyffredin yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd adran 'Cwestiynau Cyffredin' dynodedig gydag ymatebion ei lwytho i fyny ar dudalen we ymgynghoriad y Santes Fair Brymbo ar wefan y Cyngor.

## Crynodeb Cyffredinol o'r Darganfyddiadau

**Yn gefnogol o'r cais:**

**71 (63%)** o'r 113 o ymatebion i'r arolwg oedolion yn cefnogi'r cynnig.

**17 (65%)** o’r 27 o ymatebion i’r arolwg plant a phobl ifanc yn cefnogi’r cynnig.

**7 (88%)** o’r 8 o ymatebion gan Gyngor yr Ysgol yn cefnogi’r cynnig.

**Ddim yn gefnogol o’r cais:**

**42 (37%)** o’r 113 o ymatebion i’r arolwg oedolion ddim yn cefnogi’r cynnig.

**4 (15%)** o’r 27 o ymatebion i’r arolwg plant a phobl ifanc ddim yn cefnogi’r cynnig.

**0 (0%)** o’r 8 o ymatebion gan Gyngor yr Ysgol ddim yn cefnogi’r cynnig.

**Ddim yn siŵr**

**5 (19%)** allan o 27 o blant a phobl ifanc yn dweud nad oedden nhw’n gwybod sut oedden nhw’n teimlo am y sefyllfa.

**1 (12%)** allan o 8 o Gyngor yr Ysgol yn dweud nad oedden nhw’n siŵr os oedden nhw’n hoffi’r syniad.

**Ymatebion gan Grwpiau**

3 allan o 4 o ymatebion gan grwpiau yn cefnogi’r cynnig ac ymateb 1 grŵp ddim o blaid y cynnig.

Y prif bwyntiau **cadarnhaol** o ran cefnogi’r cynnig oedd:

- Angen cynyddu capasiti yn yr ysgol oherwydd datblygiadau tai yn yr ardal
- Cyfleusterau ysgol bresennol ddim yn addas i’r diben / diffyg gofod tu allan
- Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a’u dysgu
- Traffig / parcio / pryderon diogelwch yn safle presennol yr ysgol

Y **prif bryderon** oedd:

- Pryder ynglŷn â’r effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg / iaith Gymraeg

- Beirniadu’r fethodoleg / proses ymgynghori
- Pryder ynglŷn â phwysau ar y gyllideb / angen mwy o gyllid ar gyfer yr ysgol os yw’r capasiti yn cael ei gynyddu
- Mae yna gapasiti dros ben mewn ysgolion gerllaw

Ymatebion o’r ymgynghoriad yn nodi fod cyfran uwch o ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig o’i gymharu â’r rheiny nad oedd yn cefnogi’r cynnig.

**Casgliad**

Os bydd penderfyniad i beidio â symud ymlaen gyda’r cynnig presennol, mae’n debyg, o ystyried y cynnydd posib yn y galw am lefydd disgyblion oherwydd y datblygiadau tai arfaethedig, y bydd angen darparu llety dros dro ar safleoedd presennol a fydd ar ei orau yn ateb tymor byr. Mae’r Awdurdod Lleol yn credu er gwaethaf pryderon a godwyd mai’r cynnig i gynyddu’r capasiti yn Ysgol Eglwys y Santes Fair, Brymbo yw’r defnydd mwyaf effeithiol o’r adnoddau sydd gael.

**Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol**

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyfarfod ar **9 Ebrill 2024** i drafod yr ymgynghoriad ar gyfer y cynnig i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol y Santes Fair, Brymbo. Gofynnir i’r Bwrdd Gweithredol am gymeradwyaeth i symud ymlaen i’r cyfnod Hysbysiad Statudol ar gyfer penderfynu cynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol y Santes Fair, Brymbo. Mae hyn yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod lle mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ysgrifenedig. Yn dilyn hyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn dychwelyd i'r Bwrdd Gweithredol i wneud y penderfyniad terfynol.

**Hoffem ddiolch i bawb wnaeth ymateb i’r ymgynghoriad ac i’r rheiny wnaeth ein helpu i drefnu a hyrwyddo ymrwymiad gyda’r gymuned a’r ysgol.**